

Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd

Gorffennaf 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7571**

E-bost: **Lucy.Valsamidis@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#)** | **[Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Fframwaith cyffredin **dros dro:** Diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd

Gorffennaf 2022

Awduron:

Lucy Valsamidis a Sara Moran



Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig **y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd** ym mis Hydref 2021.

Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng y llywodraethau ar sut i gydweithio a rheoli gwahaniaethau mewn meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol ar lefel yr UE.

Mae'r llywodraethau'n cyhoeddi fframweithiau cyffredin ar ffurf dros dro er mwyn craffu arnynt. Ar ddechrau 2022, bu **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** y Senedd craffu ar y fframwaith cyffredin dros dro a gwnaeth argymhellion arno i Lywodraeth Cymru.

Unwaith y bydd pob senedd wedi cwblhau'r gwaith craffu, mae pedair llywodraeth yn bwriadu ymateb i argymhellion a chytuno ar fersiwn derfynol o'r fframwaith cyffredin.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r fframweithiau dros dro.

Cynnwys

Crynodeb	1
1. Cefndir.....	2
Beth yw diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd?.....	2
Cwmpas deddfwriaeth	2
Trosglwyddo swyddogaethau i awdurdodau domestig.....	3
Trefniadau newydd rhwng y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu	6
2. Y fframwaith cyffredin	8
3. Rolau a Chyfrifoldebau	9
Lefel weithredol: Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Cenedl.....	9
Lefel strategol: Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU	10
Goruchwylio: Y Prif Swyddogion Meddygol a Gweinidogion	10
4. Diben a gweithrediad y fframwaith	11
Rhaglen waith ar y cyd.....	11
Rheoli ymwahanu	11
Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith yr UE a ddargedwir	12
Rheoli trefniadau rhyngwladol	12

5. Datrys anghydfodau	16
6. Monitro, adolygu a diwygio	17
7. Tryloywder ac atebolrwydd	17

Crynodeb

Yn yr UE, mae'r Comisiwn Ewropeaidd, yr Aelod-wladwriaethau a'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau yn cydweithio at ddibenion cydlynu ymatebion i fygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd. Gan fod cyfnod pontio Brexit bellach wedi dod i ben, mae rhai o'r swyddogaethau hyn wedi cael eu trosglwyddo i Lywodraethau ac asiantaethau iechyd cyhoeddus yn y DU. Yn ogystal, nid oes gan y DU fynediad awtomatig mwyach i system rhybudd ac ymateb cynnar yr UE na Phwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE. Er hynny, yn ymarferol, mae'r DU wedi parhau i gael mynediad i'r adnoddau hyn yn ystod pandemig y coronafeirws.

Mae'r fframwaith hwn yn nodi sut y bydd y llywodraethau ac asiantaethau iechyd cyhoeddus yn cydweithio ym maes iechyd y cyhoedd yn y cyd-destun newydd hwn. Mae'n eu hymrwymo i ddatblygu rhaglen waith ar y cyd, gan gynnwys cydweithio i fynd i'r afael â bygythiadau i iechyd y cyhoedd a datblygu strategaeth a pholisi cenedlaethol ym maes iechyd y cyhoedd.

Mae'r fframwaith yn sefydlu strwythur llywodraethu newydd y bydd y llywodraethau a'r asiantaethau iechyd cyhoeddus yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau, gan gynnwys pryd y dylent fabwysiadu yr un dulliau gweithredu mewn perthynas â chyfreithiau a pholisïau ym maes iechyd y cyhoedd a phryd y dylent ymwahanu. Fodd bynnag, mae'n cynnig arweiniad cyfyngedig ar sut y bydd y partion yn gwneud penderfyniadau ynghylch pryd y bydd yn dderbyniol iddynt ymwahanu.

Mae'r fframwaith hefyd yn rhoi ystyriaeth i ymrwymïadau rhyngwladol y DU, gan gynnwys trefniadau newydd rhwng y DU a'r UE y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA). Mae'n sefydlu trefniadau newydd yn y DU ar gyfer cydweithio â phartneriaid rhyngwladol. Gallai hyn ddylanwadu ar sut mae llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhyngweithio â phartneriaid rhyngwladol ym maes iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd, gan ddarparu mwy o gyfleoedd posibl ar gyfer gwaith ymgysylltu rhyngwladol.

O dan y fframwaith, nid yw'n ofynnol i'r partion gyhoeddi eu rhaglen waith ar y cyd, na rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Seneddau a rhanddeiliaid ynghylch gweithrediad y fframwaith, na chynnwys y Seneddau a'r rhanddeiliaid yn y broses o adolygu neu ddiwygio'r fframwaith. Mae'r pedair llywodraeth wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd yn rheolaidd i'r seneddau ar fframweithiau cyffredin. Mae llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno'n unochrog i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar fframweithiau cyffredin ac i ymgynghori â'r Senedd a rhanddeiliaid wrth adolygu a diwygio.

1. Cefndir

Beth yw diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd?

Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar gyfreithiau ym maes diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd. Mae'n cynnig diffiniadau o'r termau hyn.

- Mae **diogelu iechyd y cyhoedd** yn golygu diogelu unigolion, grwpiau a phoblogaethau rhag clefydau heintus a bygythiadau i iechyd y cyhoedd nad ydynt yn heintus, gan gynnwys ymbelydredd a pheryglon cemegol ac amgylcheddol.
- Mae **diogelwch iechyd** yn golygu'r camau rhagweithiol ac adweithiol y mae angen eu cymryd er mwyn lleihau'r perygl sy'n gysylltiedig â digwyddiadau iechyd cyhoeddus aciwt sy'n bygwth iechyd cyfunol poblogaethau sy'n byw ar draws rhanbarthau daearyddol a ffiniau rhyngwladol.

Mae'r meysydd polisi hyn yn gysylltiedig â meysydd eraill y bwriedir llunio fframweithiau cyffredin ar eu cyfer. Er enghraifft, ar lefel yr UE, mae rhybuddion ynghylch bygythiadau i iechyd y cyhoedd wedi'u halinio â systemau rhybuddio ar gyfer diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ac iechyd anifeiliaid. Nid yw'r fframwaith yn nodi sut mae'n cyd-fynd â'r fframweithiau arfaethedig ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, iechyd a lles anifeiliaid neu iechyd planhigion.

Cwmpas deddfwriaeth

Deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE

Nod cyfreithiau'r UE ar ddiogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd yw hyrwyddo cydweithio rhwng yr Aelod-wladwriaethau at ddibenion eu hamddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd.

Mae iechyd y cyhoedd yn faes sydd wedi'i ddatganoli. Yn y dyddiau pan oedd y DU yn aelod o'r UE, roedd Public Health England (PHE) yn gweithredu fel awdurdod cymwys cenedlaethol y DU ar gyfer cydlynu a rhannu gwybodaeth am ddiogelu iechyd y cyhoedd. Roedd yr asiantaethau iechyd cyhoeddus ym mhob rhan o'r DU yn rhannu gwybodaeth â PHE, ac roedd PHE yn rhannu'r wybodaeth honno ar lefel yr UE. Yn ogystal, roedd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE.

Y prif ddarn o ddeddfwriaeth yn yr UE ar ddiogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd yw **Penderfyniad Rhif 1082/2013/EU Senedd a Chyngor Ewrop**. Nod y ddeddfwriaeth hon yw cefnogi ymdrechion yr Aelod-wladwriaethau i gydweithio er mwyn ceisio gwrthsefyll bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd, a hynny drwy gymryd y camau a ganlyn:

- sefydlu **Pwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE** i gydlynu gwaith yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd o ran monitro bygythiadau o'r fath ac ymateb iddynt;
- sefydlu rhwydwaith ar gyfer gwyliadwriaeth epidemiolegol, gan ddwyn ynghyd y **Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (ECDC)** (a sefydlwyd drwy **Reoliad (CE) Rhif 851/2004**), y Comisiwn Ewropeaidd a'r awdurdodau cymwys cenedlaethol;
- gosod gofyniad ar y Comisiwn i greu prosesau ar gyfer gwyliadwriaeth epidemiolegol, a chreu a diweddarau rhestr o glefydau trosglwyddadwy a materion iechyd arbennig cysylltiedig at ddibenion gwyliadwriaeth (gweler **Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/945**);
- sefydlu **System Rhybuddio ac Ymateb Cynnar yr UE (EWRS)** ar gyfer hysbysu am fygythiadau (gweler **Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/253**); a
- darparu cyfrwng i alluogi'r Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau i gydgyssylltu ymatebion cenedlaethol i fygythiadau.

Trosglwyddo swyddogaethau i awdurdodau domestig

Gan fod cyfnod pontio Brexit bellach wedi dod i ben:

- nid oes gan y DU fynediad awtomatig mwyach i System Rhybudd ac Ymateb Cynnar yr UE na Phwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE (er, yn ymarferol, mae wedi parhau i gael mynediad i'r adnoddau hyn yn ystod pandemig COVID-19); ac
- mae'r DU wedi cytuno â'r UE ar drefniadau newydd ynghylch diogelu iechyd y cyhoedd, a hynny fel rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Er mwyn sicrhau y byddai cyfreithiau ynghylch diogelu iechyd y cyhoedd yn gweithio yn y cyd-destun newydd hwn, gwnaeth Llywodraeth y DU y **Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021**. Mae'r rheoliadau hyn yn trosglwyddo swyddogaethau o sefydliadau'r UE i awdurdodau yn y DU. Maent yn pennu prosesau newydd ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd drwy:

- sefydlu Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU i ddisodli Pwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys un person yn cynrychioli'r Gweinidog perthnasol ar gyfer pob rhan o'r DU, ac un person yn cynrychioli pob asiantaeth iechyd cyhoeddus;
- galluogi'r Pwyllgor hwn i bennu gweithdrefnau ar gyfer gwyliadwriaeth epidemiolegol;
- gosod gofyniad ar bob asiantaeth iechyd cyhoeddus yn y DU i gyflawni gwaith gwyliadwriaeth epidemiolegol a rhannu gwybodaeth â'r asiantaethau eraill;
- sefydlu rhestrau ar gyfer y DU o glefydau trosglwyddadwy newydd a materion iechyd arbennig ar gyfer gwyliadwriaeth epidemiolegol;
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol (yn hytrach na'r Comisiwn Ewropeaidd) i ddiwygio'r rhestrau hyn, ar gyngor y Pwyllgor a chyda chaniatâd y Llywodraethau datganoledig; a
- gosod gofyniad ar awdurdodau ym mhob rhan o'r DU i ymgynghori â'i gilydd ynghylch parodrwydd a chynllunio ymatebion ar gyfer bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd.

Mae'r rheoliadau hefyd yn pennu prosesau newydd ar gyfer ymateb i fygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd, a hynny drwy:

- sefydlu system fel y gall pedair asiantaeth iechyd cyhoeddus y DU hysbysu canolbwynt y DU (ar hyn o bryd, **Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA)**) ynghylch bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd;
- gosod gofyniad ar ganolbwynt y DU i hysbysu'r UE ynghylch bygythiadau iechyd o'r fath;
- gosod gofyniad ar awdurdodau'r DU i ymgynghori â'i gilydd, gyda'r bwriad o gydgyssylltu ymatebion i fygythiadau o'r fath ar draws y DU a chyda'r UE a Sefydliad Iechyd y Byd; a
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud ceisiadau parthed cydweithio â'r UE ynghylch ymateb i fygythiadau o'r fath, o dan delerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chydysyniad i Lywodraeth y DU wneud y rheoliadau hyn, ar y sail ei bod yn briodol cael system ar gyfer y DU gyfan i ymdrin â bygythiadau iechyd. Ym mis Gorffennaf 2021, trafododd **y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** ddatganiad ysgrifenedig ar y rheoliadau o dan Reol Sefydlog 30C.

Ysgwyddo cyfrifoldebau newydd

O ganlyniad i'r cam o drosglwyddo'r swyddogaethau hyn, mae Llywodraethau ac asiantaethau iechyd cyhoeddus y DU wedi cael cyfrifoldebau newydd.

Er enghraifft, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynrychioli Cymru ym Mhwyllgor Diogelu Iechyd y DU, gan roi cyngor ar unrhyw ddiweddariadau i restrau'r DU o glefydau trosglwyddadwy newydd a materion iechyd arbennig ar gyfer gwylidwriaeth epidemiolegol. Bydd UKHSA yn cyflawni rhai swyddogaethau cydgysylltu a oedd yn cael eu harfer yn flaenorol ar lefel yr UE, gan gynnwys cynnal cronfeydd data ar wylidwriaeth epidemiolegol a darparu sicrwydd ansawdd.

Mae rhai cyfrifoldebau ar lefel yr UE nad ydynt wedi cael eu trosglwyddo yn uniongyrchol i awdurdodau yn y DU. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Clefydau (ECDC) yn gyfrifol am ddarparu arbenigedd gwyddonol a thechnegol i'r Aelod-wladwriaethau, y Comisiwn ac asiantaethau eraill yn yr UE wrth ddatblygu, diweddarau ac adolygu cynlluniau parodrwydd yn rheolaidd. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau'r DU ymgynghori â'i gilydd ynghylch parodrwydd a chynllunio ymatebion ar gyfer bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd, gyda'r bwriad o gryfhau eu capasiti.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes wedi mynegi pryderon ynghylch yr effaith y bydd gadael sefydliadau'r UE yn ei chael o ran diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd, gan gynnwys:

- llai o gydgyssylltu o ran nodi a rheoli clefydau heintus;
- colli aelodaeth o gyrff cydgysylltu allweddol, er enghraifft yr ECDC, a rôl yr Ardal Economaidd Ewropeaidd o ran asesu risg, dadansoddi data, gwylidwriaeth a chydlynu systemau iechyd cyhoeddus;
- colli'r gallu i rannu gwybodaeth / data am fygythiadau iechyd sy'n dod i'r amlwg a brigiadau o achosion, a cholli'r gallu i gydgyssylltu ar reoli digwyddiadau.

Trefniadau newydd rhwng y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Ers i'r DU ymadael â'r UE, mae'r DU a'r UE wedi sefydlu mesurau cydweithio newydd ar ddiogelwch iechyd. Mae'r mesurau hyn yn wahanol iawn i'r trefniadau a oedd yn bodoli pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE.

Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** (TCA) yn gosod dyletswydd ar y DU a'r UE i hysbysu ei gilydd mewn modd amserol ynghylch bygythiadau diogelwch iechyd y mae'r cytundeb yn eu diffinio fel bygythiadau sy'n peryglu bywyd neu, fel arall, yn beryglus i iechyd, ac sydd o darddiad biolegol, cemegol, amgylcheddol neu anhysbys, ac sy'n ymledu, neu'n peri risg sylweddol o ymledu, ar draws ffiniau o leiaf un o Aelod-wladwriaethau'r UE â'r DU.

Mynediad y DU i systemau'r UE

Os bydd bygythiad trawsffiniol difrifol ym maes iechyd, gwneir darpariaeth i alluogi'r DU:

- i gael mynediad i **System Rhybuddio ac Ymateb Cynnar yr UE** ar gais ysgrifenedig. Mae'r system hon yn monitro bygythiadau i iechyd y cyhoedd yn yr UE; ac
- i gael ei gwahodd i gymryd rhan mewn pwyllgor yr UE a fydd yn cynnwys Aelod-wladwriaethau, fel y gall y DU a'r UE gydlynu a chyfnewid gwybodaeth. Mae'n debygol mai **Pwyllgor Diogelwch Iechyd yr UE** fydd hyn er nad yw'r DU ar y rhestr o aelodau ar y wefan eto.

Mae'r amodau a ganlyn ynghlwm wrth y darpariaethau hyn:

- rhaid i'r DU gadw at yr amodau ar gyfer defnyddio system rhybuddio ac ymateb cynnar yr UE;
- gall yr UE roi terfyn ar fynediad y DU; a
- gall y DU roi terfyn ar ei chyfranogiad.

Bydd y ddau drefniant yn rhai dros dro, ac ni fyddant yn bodoli yn hwy nag sydd angen. Mae'r **DU wedi parhau i gael mynediad** i'r trefniadau hyn yn ystod pandemig COVID-19. Pe na bai'r pandemig wedi digwydd, byddai mynediad y DU wedi dod i ben wrth i'r wlad ymadael â'r UE, ac yna wedi cael ei ganiatáu ar y sail hon. Dyma fydd y sefyllfa mewn senarios ar ôl y pandemig yn y dyfodol.

'Canolbwyntiau' y DU a'r UE

O ran cyfnewid gwybodaeth, mae'n rhaid i'r DU a'r UE ddynodi 'canolbwyntiau'. Y canolbwyntiau sy'n gyfrifol am benderfynu a yw bygythiad yn fygythiad trawsffiniol difrifol i iechyd ai peidio, a cheisio canfod atebion y mae pawb yn cytuno arnynt i unrhyw faterion technegol sy'n codi.

Canolbwynt presennol y DU yw **Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU** (Iechyd Cyhoeddus Lloegr gynt). Bydd yr asiantaeth hon yn chwarae rhan flaenllaw yn nhrefniadau rhynglywodraethol y DU ar gyfer rhybuddion iechyd y cyhoedd yn y dyfodol, a hynny ochr yn ochr â'r **Pwyllgor Diogelu Iechyd** newydd.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am hysbysu'r UE ynghylch bygythiadau trawsffiniol difrifol, **bydd UKHSA** yn gyfrifol hefyd am gael rhybuddion gan y gwledydd datganoledig, gan gydweithio â nhw i gynnal asesiadau risg cyflym a chydlynu ymatebion.

Yng ngoleuni'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, cyhoeddodd Public Health England **brothocol cyfathrebu ar gyfer canolbwynt y DU**, er mwyn sicrhau bod asiantaethau iechyd cyhoeddus y DU yn cyfathrebu â'i gilydd yn barhaol at ddibenion hwyluso'r broses o atal a rheoli bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng asiantaethau'r DU a'r UE

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn rhoi'r opsiwn i'r **Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau** a'r corff perthnasol yn y DU Iunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau cydweithio ar faterion technegol a gwyddonol sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Ym mis Rhagfyr 2021, llofnododd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth** gyda'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau.

Cydweithio â'r UE mewn fforymau rhyngwladol

Lle bo hynny er budd y ddwy ochr, mae'r Cytundeb Masnachu a Chydweithredu yn darparu y bydd y DU a'r UE yn cydweithio mewn fforymau rhyngwladol ar atal bygythiadau sydd ar ddod i ddiogelwch iechyd, canfod bygythiadau o'r fath, paratoi ar gyfer bygythiadau o'r fath, ac ymateb i fygythiadau o'r fath. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth y DU **wedi cydweithio** â'r UE mewn fforymau rhyngwladol, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a'r **Fenter Diogelwch Iechyd Byd-eang**.

Anghydfodau rhwng y DU a'r UE

Mewn perthynas ag anghydfodau rhwng y DU a'r UE, mae darpariaethau diogelwch iechyd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn anarferol. Maent yn un o ddwy ran o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n ddarostyngedig i'r cyfyngiadau mwyaf o ran datrys anghydfodau. Mae hyn oherwydd nad yw'r opsiynau lluosog ar gyfer datrys anghydfodau yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gymwys iddynt, ond ar yr un pryd, mae cymal cyfyngu yn gymwys iddynt. Mae hyn yn atal y DU a'r UE rhag ceisio datrys anghydfod mewn ffordd arall y tu allan i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig.

2. Y fframwaith cyffredin

Mae'r fframwaith ar ddiogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd yn nodi sut y bydd Llywodraeth y DU, y Llywodraethau datganoledig ac asiantaethau iechyd cyhoeddus ym mhob rhan o'r DU yn cydweithio ar ddiogelu iechyd y cyhoedd ac ar ddiogelwch iechyd, sef meysydd a gafodd eu llywodraethu yn flaenorol gan gyfreithiau a pholisïau yr UE.

Asiantaethau iechyd cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor technegol ar iechyd y cyhoedd. Llywodraethau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau polisi.

Mae'r fframwaith wedi'i seilio ar yr eitemau a ganlyn:

- **Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021**; a
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth anneddfwriaethol (Atodiad A i'r ddogfen fframwaith).

Yn 2017, cytunodd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) ar chwe maen prawf o ran pryd y byddai angen fframweithiau cyffredin. Dywed y fframwaith y bydd angen bodloni tri o'r meini prawf hyn:

- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- sicrhau y gall y DU negodi cytundebau masnach newydd a chytuniadau rhyngwladol, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith; a
- sicrhau diogelwch y DU.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i'r fframwaith yn datgan tri nod ar gyfer ei hun:

- cryfhau cydweithio a chydlynu rhwng y partïon dan sylw ar faterion sy'n

ymwneud â diogelu iechyd y cyhoedd a pholisïau diogelwch iechyd;

- pennu disgwyliadau cyffredin ynghylch meysydd allweddol o gydweithio ac ynghylch sut y bydd ffyrdd o weithio yn datblygu yn y dyfodol; a
- sicrhau y bydd datblygiadau o ran ffyrdd o weithio yn canolbwyntio ar gryfhau cydnerthedd mewn perthynas â bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd.

3. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r fframwaith yn sefydlu system aml-haenog o gyrff i hyrwyddo cydweithio rhwng y partïon, gan gynnwys cydweithio ar lefel weithredol a goruchwyliaeth gan brif swyddogion meddygol a gweinidogion.

Bydd y partïon i'r fframwaith yn gwneud penderfyniadau ar y cyd drwy gonsensws ac yn ceisio datrys anghytundebau ar y lefel isaf bosibl. Os nad yw'n bosibl cyflawni hynny, gellir cyfeirio anghytundebau at broses y fframwaith ar gyfer datrys anghydfodau. Bydd y cadeiryddion ar gyfer cyfarfodydd yn cael eu cylchdroi. Bydd Llywodraeth y DU neu UKHSA yn darparu cymorth ysgrifenyddol.

Lefel weithredol: Grŵp Goruchwyllo Diogelu Iechyd y Pedair Cenedl

Bydd **Grŵp Goruchwyllo Diogelu Iechyd y Pedair Cenedl** yn cydgysylltu gweithgareddau sy'n ymwneud â diogelu iechyd y cyhoedd ledled y DU. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys un cynrychiolydd o Lywodraeth y DU a chynrychiolydd yr un o'r Llywodraethau datganoledig a'r asiantaethau iechyd cyhoeddus ym mhob rhan o'r DU.

Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am weithredu'r fframwaith ac am wneud penderfyniadau ar faterion gweithredol, gan gynnwys:

- cydlynu'r rhaglen waith ar y cyd;
- monitro'r gwaith a wneir rhwng timau polisi iechyd y Llywodraeth a'r asiantaethau iechyd cyhoeddus sy'n berthnasol i'r fframwaith; a
- chyfrannu at waith Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU.

Bydd y grŵp yn cynnal pedwar cyfarfod bob blwyddyn, neu fwy yn ôl yr angen. Mae'n bosibl y bydd gweithgorau ar bynciau penodol hefyd yn cael eu creu. Bydd yn atebol i Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU.

Lefel strategol: Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU

Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU (a sefydlwyd gan Reoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021) fydd yn gyfrifol am ddod â chynrychiolwyr y partïon ynghyd i wneud penderfyniadau ar y cyd ar bolisi a strategaeth, gan gynnwys:

- cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn y Rheoliadau;
- cytuno ar y rhaglen waith ar y cyd ar gyfer y fframwaith;
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi amlochrog, gan gynnwys ceisio datblygu dulliau gweithredu cyffredin ar draws y DU lle y bo'n dderbyniol, a rheoli achosion posibl o ymwahanu;
- cefnogi'r gwaith o gydgyssylltu ymdrechion i wella'r gallu i fonitro ac asesu bygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd, a rhoi rhybuddion cynnar yn eu cylch;
- monitro'r modd y caiff y fframwaith ei gymhwyso, gan gynnwys casglu gwybodaeth am gyfarfodydd a gynhelir rhwng y partïon;
- adolygu a diwygio'r fframwaith.

Bydd yn gyfrifol am fonitro'r modd y caiff y fframwaith ei gymhwyso (gan gynnwys casglu gwybodaeth am gyfarfodydd a gynhelir rhwng y partïon) ac am wneud penderfyniadau ar y cyd ar bolisiau a strategaethau perthnasol.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal dau gyfarfod bob blwyddyn, neu fwy yn ôl yr angen. Bydd yn cynnwys swyddogion ar lefel Cyfarwyddwr, a bydd yn atebol i Grŵp Prif Swyddogion Meddygol y DU. Ymddengys nad oes gan y Pwyllgor bresenoldeb ar-lein ar hyn o bryd.

Goruchwyllo: Y Prif Swyddogion Meddygol a Gweinidogion

Bydd Grŵp Prif Swyddogion Meddygol y DU yn casglu gwybodaeth flynyddol am gyfarfodydd sy'n berthnasol i'r fframwaith ac yn mabwysiadu penderfyniadau mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Prif Swyddogion Meddygol. Mae'r fframwaith yn nodi nad oes disgwyl i'r grŵp hwn chwarae rôl amlwg, ond y gellid ei ddefnyddio at ddibenion datrys problemau.

Bydd Gweinidogion Iechyd ym mhob rhan o'r DU yn goruchwyllo'r fframwaith ar lefel wleidyddol uwch.

4. Diben a gweithrediad y fframwaith

Rhaglen waith ar y cyd

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymrwymo'r partïon i'r fframwaith, ac i gydweithio ar raglen waith a rennir yn seiliedig ar adnoddau presennol, gan gynnwys:

- gweithgareddau yn ymwneud â **diogelu iechyd y cyhoedd**: gwyliadwriaeth a rhybuddio cynnar, asesu risg, adrodd ar sefyllfaoedd a rhannu data ar frys;
- rhannu arbenigedd ym maes diogelwch iechyd;
- negeseuon cyhoeddus;
- datblygu polisiau a strategaethau cenedlaethol ym maes iechyd y cyhoedd;
- rhannu data a gwybodaeth;
- sefydlu egwyddorion ar gyfer darparu cymorth cydfuddiannol ledled y DU;
- cydweithio ar **gynllunio gweithlu**, a hynny er mwyn datblygu gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd y gweithlu ym maes iechyd y cyhoedd;
- cydnabod ar y cyd raglenni hyfforddi ar ddiogelu iechyd y cyhoedd, a hwyluso mynediad i **hyfforddiant ac addysg** ar draws y DU;
- cryfhau'r modd y mae **gwaith** ymchwil a chydweithio gwyddonol yn cael ei gydgyssylltu, gan gynnwys drwy alinio strategaethau ymchwil a gwyddoniaeth a chydweithio â phartneriaid rhyngwladol. Mae elfennau rhyngwladol y trefniadau hyn yn ddarostyngedig i drefniadau'r DU yn dilyn Brexit, gan gynnwys darpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Nid yw'n glir a yw'r partïon i'r fframwaith yn bwriadu cyhoeddi'r rhaglen waith ar y cyd.

Rheoli ymwahanu

Mae'r fframwaith yn nodi mai un o ddibenion y Pwyllgor Diogelwch Iechyd fydd rheoli'r ymwahanu a allai ddod i'r amlwg rhwng gwahanol rannau o'r DU:

The Parties shall inform each other at the earliest opportunity of any new policy proposals within the scope of this MoU to allow full consideration and a common approach to be reached wherever possible and appropriate.

Fodd bynnag, mae hefyd yn dweud:

[The] Regulations do not prevent a Devolved Government from undertaking additional surveillance for health protection purposes in their own jurisdiction should they so wish. The legislation is intended to ensure the continued sharing of comparable and compatible information with respect to serious crossborder threats to health for the purposes of coordination and collaboration. In other areas, it will still allow for divergence in the public health measures put in place by devolved nations.

Manylion cyfyngedig sydd ar gael am sut y bydd y partïon yn penderfynu pryd y dylid gwneud penderfyniadau ar y cyd drwy'r fframwaith, nac ar ba sail y bydd ymwahanu yn cael ei dderbyn.

Mae'n bosibl y bydd y fframwaith yn gweithredu fel cyfyngiad ymarferol ar y ffyrdd y gall y Senedd a Llywodraeth Cymru arfer eu cymhwysedd. Er enghraifft, pe bai Aelod o'r Senedd yn cynnig darn newydd o ddeddfwriaeth ar iechyd y cyhoedd o fewn cwrmpas y fframwaith, byddai angen i Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgynghori â'r partïon eraill i'r fframwaith er mwyn trafod a ddylid dilyn dull gweithredu cyffredin.

Mae **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd wedi nodi pryderon** am effaith hyn ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd a rhanddeiliaid wrth ddeddfu ar gyfer Cymru. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** na fydd y fframwaith yn effeithio ar bwerau datganoledig.

Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith yr UE a ddargedwir

Mae **Llywodraeth y DU wedi amlinellu cynlluniau** i gyflwyno Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir i'w gwneud yn haws newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir a dileu'r statws arbennig sydd ganddo yng nghyfraith y DU. Gallai hyn arwain at ddileu neu newid safonau presennol mewn cyfraith ddomestig.

Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn ceisio gwneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ym mhob fframwaith.

Rheoli trefniadau rhyngwladol

Mae'r fframwaith yn ymrwymo'r partïon i gydweithio ar rwymedigaethau rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

Disgrifir diben y fframwaith fel a ganlyn:

address the threats arising from infectious disease and noninfectious threats such as chemical and environmental hazards which cross borders. This is in line with existing national policies and the International Health Regulations (2005) (IHR).

Mae'r fframwaith yn cyfeirio at y Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol yn unig, ond nid yw'n cyfeirio at offerynnau eraill o dan gyfraith ryngwladol, gan gynnwys offerynnau sy'n mynd i'r afael yn benodol â'r risgiau trawsffiniol a berir i iechyd dynol gan beryglon cemegol a/neu amgylcheddol. Un enghraifft yw **Confensiwn Rotterdam**, sy'n hyrwyddo cydweithio rhwng gwladwriaethau yng nghyd-destun masnachu cemegau peryglus yn rhyngwladol, gyda'r nod penodol o ddiogelu iechyd dynol.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cyfeiriadau a wneir at y Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol yn y fframwaith.

Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol (2005) (IHR)

Mae **Sefydliad Iechyd y Byd** (WHO) yn disgrifio'r rheoliadau fel a ganlyn:

The International Health Regulations (2005) (IHR) provide an overarching legal framework that defines countries' rights and obligations in handling public health events and emergencies that have the potential to cross borders.

Mae'r Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol (IHR) yn offeryn o gyfraith ryngwladol sy'n gyfreithiol rhwymol ar 196 o wledydd, gan gynnwys 194 o aelod-wladwriaethau Sefydliad Iechyd y Byd.

Yn ogystal, mae'r IHR:

- yn ei gwneud yn ofynnol i wledydd ddynodi Canolbwynt IHR Cenedlaethol ar gyfer cyfathrebu â Sefydliad Iechyd y Byd, a hynny er mwyn sefydlu a chynnal capasiti craidd ar gyfer gwyliadwriaeth ac ymateb, gan gynnwys mewn mannau mynediad dynodedig.
- yn mynd i'r afael â materion ym maes trafndiaeth a theithio rhyngwladol, fel y dogfennau iechyd sydd eu hangen ar gyfer traffig rhyngwladol.
- yn cyflwyno mesurau diogelu pwysig i ddiogelu hawliau teithwyr a phersonau eraill mewn perthynas ag ymdrin â data personol, caniatâd gwybodus a pheidio â gwahaniaethu wrth gymhwyso mesurau iechyd o dan y Rheoliadau.

Mae'r fframwaith yn dweud:

Through IHR, countries have agreed to build their capacities to detect, assess and report public health events. WHO plays the coordinating role in IHR and, together with its partners, helps countries to build their capabilities.

Mae'r IHR hefyd yn cynnwys mesurau penodol mewn porthladdoedd, meysydd awyr a chroesfannau ar y tir i gyfyngu ar ledaeniad risgiau iechyd i wledydd cyfagos, ac i atal cyfyngiadau teithio a masnach heb eu gwarantu fel y gellir lleihau cymaint â phosibl ar achosion o amharu ar draffig a masnach.

Yn 2013, cyhoeddodd Public Health England **brothocol cyfathrebu ar gyfer canolbwynt cenedlaethol y DU** er mwyn ymdrin â materion cyfathrebu mewn perthynas â'r IHR neu rhwng cyrff perthnasol, gan gynnwys rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r protocol hwn yn cynnwys manylion a gweithdrefnau perthnasol o ran cyfathrebu ar gyfer y DU os bydd unrhyw ddiogwyddiad yn dod i'r amlwg mewn unrhyw ran o diriogaeth y DU a allai fod â goblygiadau i iechyd y cyhoedd yn rhyngwladol, neu fasnach neu draffig rhyngwladol. Mae hefyd yn manylu ar y weithdrefn y dylid ei dilyn ar gyfer anfon gwybodaeth at Sefydliad Iechyd y Byd neu dderbyn gwybodaeth ganddo. Nid yw'r fframwaith yn crybwyll y protocol hwn, er ei fod yn sôn am brothocol penodol rhwng y DU a'r UE, a sefydlwyd yn sgil y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac a ddisgrifir uchod yn adran 3.

Yn ôl y fframwaith, roedd y trefniadau o fewn y DU ar gyfer cynrychiolaeth yn yr UE pan oedd y DU yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r IHR. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach, gan gynnwys a fydd y trefniant hwn yn parhau yn dilyn ymadawiad y DU.

Rhwymedigaethau rhyngwladol newydd

Nid yw'r fframwaith yn cyfeirio'n benodol at ddiweddarau'r fframwaith er mwyn adlewyrchu rhwymedigaethau rhyngwladol newydd, nac yn sefydlu mecanwaith penodol ar gyfer gwneud hynny. Mae hyn yn wahanol i fframweithiau cyffredin eraill, megis **y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Sylweddau Peryglus (Cynllunio)**. Fodd bynnag, mae'r fframwaith yn sefydlu mecanwaith ar gyfer adolygu a diwygio. Mae ansicrwydd ynghylch a fydd rhwymedigaethau rhyngwladol yn cael eu hymgorffori drwy'r mecanwaith hwn.

Ar 1 Rhagfyr 2021, cytunodd arweinwyr y byd i ddrafftio a thrafod **cytundeb rhyngwladol newydd i gryfhau gwaith atal, parodrwydd ac ymateb i bandemig**

mewn sesiwn arbennig o Gynulliad Iechyd y Byd. Mae **amlinelliad drafft** ar gael a chynhaliwyd cyfarfodydd o'r **Corff Negodi Rhynglywodraethol** yn ystod 2022, yn fwyaf diweddar ym mis Gorffennaf 2022. Nid yw'n glir i ba raddau y mae'r DU yn cymryd rhan. Mae'n bosibl y bydd angen ymgorffori rhwymedigaethau rhyngwladol newydd o'r fath yn y fframwaith yn y dyfodol.

Cysylltiadau Rhyngwladol

Setliad datganoli

Mae'r fframwaith yn egluro bod polisi cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl, a bod Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU wedi cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros lunio polisi iechyd rhyngwladol y DU.

Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod diogelu iechyd yn fater datganoledig, a bod y broses o weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn gofyn am ddull cydgysylltiedig gan y pedair gwlad. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig.

Mae'r fframwaith yn egluro y bydd y trefniant hwn yn cael ei adlewyrchu mewn trefniadau gwaith rhynglywodraethol yn y dyfodol.

Trefniadau yn y dyfodol

Mae'r fframwaith yn nodi bod y pedair gwlad yn cytuno i gryfhau'r cydgysylltu sy'n digwydd mewn meysydd rhyngwladol eraill drwy'r camau a ganlyn:

- a. datblygu dulliau ar draws y DU ar gyfer materion diogelu iechyd y cyhoedd ac sydd angen ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol, gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd, Euro, Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop ac Aelod-wladwriaethau'r UE.
- b. nodi cyfleoedd pellach i ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol, gan gydnabod a, lle y bo'n briodol, adeiladu ar unrhyw ymrwymadau presennol sydd gan y Partion.

Trefniadau llywodraethu newydd rhwng y DU a'r UE

Mae darpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar ddiogelwch iechyd i'w gweld yn Nheitl 1 o Ran Pedwar o'r Cytundeb, sy'n ymwneud â chydweithio thematig.

Er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu 24 o bwyllgorau newydd

rhwng y DU a'r UE at ddibenion goruchwyllo'r modd y caiff ei weithredu a'i gymhwyso, nid oes fforwm ar y cyd ar ddiogelwch iechyd. Mae'r fframwaith yn cydnabod hyn ac yn galw am gyfranogiad datganoledig mewn unrhyw Bwyllgor Arbenigol a gaiff ei sefydlu yn y dyfodol.

Mae'r fframwaith yn cydnabod **yr ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y DU** ym mis Mai 2021 i hwyluso presenoldeb datganoledig yng nghyfarfodydd y DU a'r UE, pan fo eitemau sy'n ymwneud â meysydd o gymhwysedd datganoledig ar yr agenda, ac yn y paratodau ar gyfer cyfarfodydd o'r fath.

5. Datrys anghydfodau

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd anghytundebau yn cael eu datrys ar y lefel isaf bosibl. Mae hefyd yn nodi proses ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau, gan ddweud mai dim ond o dan yr amodau a ganlyn y dylid ei defnyddio:

- os nad oes modd i'r partïon gytuno ar ddull cyffredin neu benderfyniad i ymwahanu; neu
- os yw un neu fwy o'r partïon o'r farn bod telerau'r fframwaith neu egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) wedi'u torri.

Bydd anghytundebau'n cael eu huwchgyfeirio drwy haenau llywodraethu'r fframwaith:

- os na ellir datrys anghytundeb ar lefel weithredol, gellir ei gyfeirio at Grŵp Goruchwyllo Diogelu Iechyd y Pedair Cenedl;
- os na all y grŵp hwnnw ddod i benderfyniad, gellir cyfeirio'r anghytundeb at y Pwyllgor Diogelu Iechyd; ac
- os nad oes cytundeb o hyd, gellir cyfeirio'r anghytundeb at y Prif Swyddogion Meddygol neu'n uniongyrchol at Weinidogion i'w drafod.

Os na all y gweinidogion portffolio ddatrys yr anghydfod, gellir ei drosglwyddo i'r broses datrys anghydfodau rhyng-weinidogol a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli. Ym mis Ionawr 2022, **cytunodd llywodraethau** ar broses datrys anghydfod rhyng-weinidogol newydd fel rhan o'r Adolygiad o Berthynas Rynglywodraethol. **Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod hyn yn gam arloesol.

Nid yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer hysbysu seneddau neu randdeiliaid am anghydfodau. Fodd bynnag **mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** i hysbysu'r Senedd am anghydfodau.

6. Monitro, adolygu a diwygio

Bydd Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i fonitro'r fframwaith ac i asesu pa mor dda y mae'n gweithio.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sefydlu mecanwaith ar gyfer adolygu a diwygio er mwyn hwyluso'r broses o wneud newidiadau iddo yn y dyfodol. Bydd adolygiadau'n digwydd:

ar ôl cyfnod o chwe mis, cyfnod o flwyddyn, a chyfnod o dair blynedd wedi i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ddod i rym, a phob tair blynedd ar ôl hynny; ac

os bydd unrhyw un neu fwy o'r partïon o'r farn bod 'mater arwyddocaol' wedi codi (ond ni ellir trafod yr un mater arwyddocaol o fewn chwe mis i ddiwedd y drafodaeth.)

Os bydd yr holl bartïon yn cytuno, gallant ddechrau ar y cam diwygio ar gyfer y fframwaith. Rhaid i'r holl bartïon gytuno ar unrhyw ddiwygiadau. Os na fydd partïon yn gallu cytuno ar newid arfaethedig, mae'n bosibl y bydd y broses ar gyfer datrys anghydfodau yn cael ei sbarduno.

Bydd y cylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Goruchwyllo Diogelu Iechyd y Pedair Cenedl yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, neu'n gynt ar gais.

7. Tryloywder ac atebolrwydd

Mae'r fframwaith yn nodi y bu ymgysylltu helaeth rhwng Llywodraethau ac asiantaethau iechyd cyhoeddus. Mae'n nodi na fu yr un lefel o ymgynghori â diwydiant â'r hyn a oedd yn ofynnol mewn perthynas â fframweithiau eraill. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar Reoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021.

Fodd bynnag, mae'r fframwaith yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o ymgysylltu allanol, gan gyfeirio'n benodol at y Gyfadran Iechyd Cyhoeddus (corff y DU sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd y cyhoedd).

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU a Grŵp Goruchwyllo Diogelu Iechyd y Pedair Cenedl yn nodi y gellir gwahodd arbenigwyr i gyfarfodydd i roi mewnbwn ar eitemau ar yr agenda. Gellir gwahodd arsyllwyr i fod yn bresennol hefyd.

Yn ogystal, mae'r fframwaith yn nodi ei bod yn bwysig i swyddogion ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer cytuno ar argymhellion polisi. Gallai hyn gynnwys comisiynu cyngor neu dystiolaeth allanol, neu ymgysylltu â diwydiant.

Nid oes unrhyw ymrwymiad i gynhyrchu na chyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y fframwaith. Mae **Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** yn unochrog i adrodd yn flynyddol ar y fframweithiau. Ym mis Tachwedd, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod y Llywodraethau oll wedi cytuno i adrodd i'r Seneddau ar y fframweithiau cyffredin yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau i roi rôl i seneddau o ran monitro gweithrediad y fframwaith na chraffu ar welliannau. Dywed y fframwaith y gall y llywodraethau ddefnyddio trydydd partion i gynghori ar adolygu a diwygio'r fframwaith. Gallai hyn gynnwys cyrff llywodraeth neu randdeiliaid allanol. Ym mis Mawrth, **ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol** i hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan gaiff fframwaith cyffredin ei adolygu, a thrafod eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben.